
# DANGOSFWRDD CIG COCH

## Ionawr – Ebrill 2019

FARMING connect cyswllt FFERMIO

**% o'r oll weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch**





### Rhwydwaith Arddangos

#### Monitro iechyd mamogiaid ac ŵyn

Cafodd cyfanswm o 4172 o gofnodion pwyso 805 o ŵyn a data ynghylch achosion o glefydau eu casglu dros gyfnod chwe mis mewn diadell bedigri fasnachol yn Safle Arloesi Innovis.

- Roedd achosion o gloffni a mastitis ymhlith mamogiaid wedi effeithio'n sylweddol ar dwf ŵyn. Ar gyfartaledd, roedd ŵyn mamogiaid y canfuwyd mastitis arnynt yn ystod y cyfnod llaetha yn 3.0kg yn ysgafnach ar unrhyw adeg nag ŵyn mamogiaid oedd heb eu heffeithio.
- Roedd ŵyn mamogiaid oedd ddim yn gloff pan oeddent yn drwm yn pwyso 3.0kg yn fwy pan yn 8 wythnos oed nag ŵyn mamogiaid a brofodd o leiaf un achos o gloffni yn ystod yr un cyfnod . Roedd ŵyn mamogiaid oedd yn gloff naill ai yn ystod pedair wythnos gyntaf bywyd ŵyn neu pan oeddent rhwng 4 ac 8 wythnos oed (ond ddim yn gloff pan oeddent yn drwm) gryn dipyn yn drymach hefyd pan oeddent yn 56 diwrnod oed nag ŵyn oedd yn cael eu magu gan famogiaid oedd yn gloff pan oeddent yn drwm (2.8 a 3.3kg yn eu trefn).
- Roedd achosion o niwmonia ac arthritis bacteriol mewn ŵyn wedi effeithio'n negyddol ar dwf ŵyn, ac roedd ŵyn oedd wedi'u heffeithio yn pwyso 5.5kg a 2.2kg yn llai nag ŵyn oedd heb eu heffeithio yn eu trefn.

Yn gyffredinol, mae'r prosiect yn cynnig tystiolaeth sy'n profi bod cyfuniad o nodweddion mamogiaid ac ŵyn ac achosion o glefydau yn gwneud cyfraniad pwysig at bennu cyfraddau twf ŵyn.




#### Cyfateb brîd y fuwch â'r amgylchedd ar y fferm

Mae Richard a Helen Roderick o Safle Arddangos Newton Farm yn newid o fuchod croes Limousin a chroes Glas Gwlad Belg i Stabiliser mewn ymgais i weithio gyda brîd sy'n fwy addas ar gyfer system sy'n seiliedig ar borthiant.

Cynnal y fuwch yw un o'r costau mwyaf o gadw buwch a'r nod yw bridio buchod llai sydd yr un mor gynhyrchiol. Bydd rhaid monitro cyflwr y buchod hyn er mwyn sicrhau eu bod yn medru perfformio ar eu gorau. Dylai buchod gael sgôr cyflwr corff o rhwng 2 a 2.5 wrth loea a dylent fod ar raddfa gynyddol o ran maeth pan fyddant yn mynd allan i laswellt fel eu bod yn gwneud defnydd o laswellt y gwanwyn er mwyn cynyddu eu sgôr cyflwr corff. Paru ar sgôr cyflwr corff o 2.5 i 3 sy'n rhoi'r canlyniadau gorau.

#### Ymchwilio i opsiynau ynghylch rhoi Fitamin B12 i ŵyn sy'n tyfu

Bydd y prosiect hwn yn cael ei gynnal ar draws tri safle yn 2019, yn cynnwys Safle Ffocws Clawdd y Mynach ger y Bontfaen, a bydd yn ystyried gwahanol ddulliau o roi ychwanegion fitamin B12. Mae Fitamin B12 yn hanfodol ar gyfer anifeiliaid sy'n tyfu, yn enwedig er mwyn metaboleiddio egni a chynhyrchu celloedd gwaed coch, ac mae ar ficrobau'r perfedd ei angen i droi cynnwys yr ystumog yn elfennau bwyd y gall yr anifail eu treulio. Gall diffyg cobalt mewn priddoedd arwain at ddiffyg B12 ymhlith da byw. Gwelir arwyddion diffyg cobalt yn fwyaf cyffredin ymhlith ŵyn wedi'u diddyfnu ar borfa tua diwedd yr haf ac yn yr hydref; mae'r arwyddion hyn yn cynnwys syrthni, llai o archwaeth a gwlân o ansawdd wael â chnu agored, maint bychan a chyflwr corfforol gwael er waethaf maethiad digonol.

Mae diffyg cobalt yn broblem hysbys ar y tair fferm a byddant yn ystyried pa fath o ychwanegion sy'n gweddu i'w fferm a'u system. Mae'r dewisiadau y byddir yn eu defnyddio yn cynnwys bolysau a phigiadau. Caiff cyfraddau twf a lefelau fitamin B12 yn y gwaed eu monitro i weld a oes unrhyw wahaniaethau yn y gwahanol ddulliau o roi ychwanegion fitamin B12.

#### Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu

#### India-corn cartref yn helpu i gyflawni pwysau lladd delfrydol yn gynharach

Mae Arwyn Jones o Safle Arddangos Fferm Plas yn lleihau ei ddibyniaeth ar borthiant wedi'i brynu trwy dyfu india-corn. Trwy gynnwys india-corn yn y dognau, bydd anifeiliaid yn newid yn gyflymach i ddogn y gaeaf heb i gyfraddau twf arafu o gwbl.

Trwy orffen pesgi'r anifeiliaid yn gynt oherwydd cyfraddau twf cyflymach, arbedir costau sy'n amrywio o £20 i £30 y pen.

Yn ôl y dadansoddiad o'r india-corn, roedd yn cynnwys 33.9% DM, 11.6 ME a 37% o starts.

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG DELWEDDAU THERMOL I WELLA GWAITH CYNHYRCHU DA BYW
- AR RADAR Y FFERMWR: Y 10 PRIF DUEDD DECHNOLEGOL I AMAETHYDDIAETH
- LLUNIO PROFFILIAU METABOLIG O FAMOGIAID I WELLA EFFEITHIOLRWYDD A CHYNHYRCHU
- NWY TŶ GWYDR BYCHAN OND MARWOL: SUT I LEIHAU ALLYRIADAU METHAN O DDA BYW

Taflenni gwybodaeth a gynhyrchwyd:

- GWAHANU SLYRI
- SILWAIR AML-DORIAD

### Mentro

**14** DARPARWR CIG COCH NEWYDD

**12** CEISIWR CIG COCH NEWYDD


**10 PARTNERIAETH CIG COCH**

yn cael eu cefnogi rwy'r Gwasanaeth Cynghori ar hyn o bryd

Cafodd 3 Menter Cig Coch ar y Cyd newydd eu sefydlu trwy'r rhaglen Mentro yn ystod y cyfnod hwn


Cyfleoedd presennol sydd ar gael:

Nifer y cyfleoedd a gynigir:



**14 UNED CIG COCH**

Cyfanswm arwynebedd y tir a gynigir:



**1000 HECTAR**

(UNEDAU CIG COCH YN UNIG)

## Grwpiau Trafod

**79** CYFARFOD GRWPIAU TRAFOD CIG COCH a gynhaliwyd gyda **680** O FYNYCHWR

**Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 50**

### Astudiaeth Achos

Fe wnaeth Aled Davies o Pruex ymweld â Grŵp Trafod ynghylch ffermio defaid yn Ynys Môn ym mis Ebrill i drafod 'wedi ŵyna' a pha gamau y gellid eu gweithredu i leihau'r defnydd o wrthfiotigau microbaidd yn ystod y cyfnod hwn, pan wneir defnydd sylweddol ohonynt yn draddodiadol. Dywedodd wrth yr aelodau mai gorddefnydd o wrthfiotigau ymhlith pobl sy'n effeithio fwyaf ar ddatblygu imiwnedd, ond ni ddylid anwybyddu cyfraniad amaethyddiaeth at hyn, ac mae angen i'r diwydiant ddangos ei fod yn arloesi o ran lleihau defnydd.

Fe wnaeth Aled argymell cymryd swabiau tu mewn i'r sied ŵyna, gan gynnwys y tanciau dŵr, i bennu pa facteria sy'n bresennol mewn gwirionedd. Yna, gellir gweithredu camau i atal y bacteria penodol hyn rhag amlhau:

- Sicrhewch bod tanciau dŵr a chafnau porthi yn ddigon uchel i osgoi cael eu halogi gan ysgarthion da byw. Fe wnaiff hyn hefyd leihau'r achosion o drosglwyddo E-coli o geg y famog i'r oen newydd-anedig pan fydd ei fam yn ei lyfu.
- Cofiwch gadw deunydd gorwedd yn sych, oherwydd bydd bacteria yn amlhau mewn amgylchedd llaith
- Cadwch gafnau dŵr yn lân i leihau'r bioffilm ar y dŵr, ac felly, caiff ceg y famog ei chadw'n lân
- Peidiwch â chadw gormod o stoc

Gall dilyn y camau hyn arwain at leihad enfawr yn nifer yr achosion o'r ddau brif glefyd sy'n achosi colledion ac ŵyn sy'n ffynnu'n wael ar adeg ŵyna – Ceg Ddyfriog a Chlwy'r Cymalau

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**Cynhaliwyd 59 o Ddigwyddiadau gyda 2434 o fynychwr**

| | |
|---|---|
| 6 FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL (GRANT BUSNES I FFERMYDD) | 10 GWEITHDY CYNLLUN DATBLYGIAD PERSONOL |
| 1 SIOE DEITHIOL IECHYD A DIOGELWCH | 19 GWNEUD TRETH YN DDIGIDOL |
| 3 BRECWAST RHANDDEILIAID | 10 GWEITHDY OLYNIAETH – DECHREUWCH SGWRS |
| 9 GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY 2 | 3 FFORWM AR GYFER FFERMWYR SY'N DENANTIAID |
| 2 SIOE DEITHIOL RHEOLI LLYNGYR | |

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, yn cynnwys y sector Cig Coch.

## Cymorthfeydd

**Cynhaliwyd 39 Cymorthfa**

| | |
|---|---|
| 4 CYMORTHFA ADOLYGIAD BUSNES DIGIDOL | 9 CYMORTHFA OLYNIAETH |
| 6 CHYMORTHFA CYNLLUNIO | 5 CYMORTHFA TG |
| 2 GYMORTHFA RHEOLAETH ARIANNOL | 1 GYMORTHFA OLYNIAETH DDIGIDOL |
| 9 CYMORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO | 1 HORTHFA CYNLLUNIO DDIGIDOL |
| 2 GYMORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO DDIGIDOL | |

Mae'r cymorthfeydd un ac un y byddwn yn eu darparu ar gael i bob sector, yn cynnwys y sector Cig Coch, sy'n golygu y gellir rhannu cyngor arbenigwyr ymhellach. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth **213 o fusnesau cig coch** fynychu cymorthfa, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

## Rhaglen Mentora

**78** FFERMWR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

MAE **280** O FFERMWYR CIG COCH YN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

MAE **85%** O'R HOLL FENTAI YN DOD O'R SECTOR CIG COCH

MAE **7** O'R UCHOD YN FFERMWYR MOCH

### Ceisiodd fentai newydd gyngor ynghylch agweddau amrywiol yn cynnwys:

- Cynhyrchu cig geifr
- Gwella iechyd mamogiaid
- Bridio buchesi llaeth
- Pori Cylchdro
- Iechyd a diogelwch ar ffermydd
- Offer EID

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **199** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb ar gyfer unigolion o fewn y sector Cig Coch.

| GWELLA BUSNES | HYFFORDDIANT TECHNEGOL | DEFNYDDIO PEIRIANNAU AC OFFER |
|---|---|---|
| 89 | 77 | 33 |
| UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT |

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

- CYLLID FFER
- CLOFFNI GWARTHEG
- GOROESIAD PERCHYLL – MAETH YR HWCH
- AFIECHYD JOHNE'S MEWN DEFAID

Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

## Rhai o uchafbwyntiau allweddol ein Gwefan a'n platfformau Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar...

Facebook 18/04/2019

### Rheoli'r Oen sy'n Tyfu

Ymunwch â ni ac arbenigwyr o fewn y maes gan gynnwys yr ymgynhorydd Jon Vippond, yn ein digwyddiad i drafod a derbyn cyngor ymarferol am reoli'r oen sy'n tyfu.

Mae gennym amryw o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru!






**Pobl a Gyrhaeddwyd: 3,099**
**Ymgysylltiadau: 141**
**Hoffi, sylwadau a rhannu: 11**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government